



Cynnig Polisi:

Anwybyddu neu Archwilio COPD?

Chiesi Ltd (Chiesi)

Cynnwys:

Rhestr o Dalfyriadau:.....	2	Gwella Diagnosis o COPD a Gofal o'r Clefyd drwy Fanteisio ar Raglenni Sgrinio Canser yr Ysgyfaint:.....	6
Trosolwg o'r Cynnig Polisi:.....	2	Datblygu Llwybr tuag at Ganlyniadau Gwell i Bobl sy'n Byw gyda COPD:.....	8
Diben a Chwmpas:.....	3	Cyfeiriadau:.....	9
Canlyniadau sy'n Gwaethgu ar gyfer COPD yng Nghymru:.....	4		
Cyfle Unigryw i Wrthdroi'r Canlyniadau sy'n Gwaethgu ar gyfer COPD yng Nghymru:.....	5		

Rhestr o Dalfyriadau:

- COPD: Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint
- CT: Tomograffeg Gyfrifiadurol
- GIG: Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- GOLD: Menter Fyd-eang ar gyfer Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint
- LDCT: Tomograffeg Gyfrifiadurol Dos Isel
- MALIC: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- NICE: Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal
- TLHC: Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint wedi'i Dargedu

Trosolwg o'r Cynnig Polisi:

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, ni welwyd gwelliannau sylweddol yng Nghymru a gweddill y DU mewn canlyniadau i unigolion sy'n byw gyda chyflyrau'r ysgyfaint.¹ Mae Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD), sy'n cynnwys cyflyrau fel emffysema a bronchitis cronig, yn parhau i fod yn achos pryder mawr o ran iechyd y cyhoedd.² Ar hyn o bryd, yng Nghymru:

- Mae gan un o bob pump o bobl anhwylder ar yr ysgyfaint.³
- Mae clefydau anadlol ymhlith yn un o'r tri phrif achos marwolaeth.⁴
- Mae COPD yn achosi 1,800 o farwolaethau bob blwyddyn.⁵

- Mae unigolion sy'n byw yn y rhannau o Gymru sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd, fel y nodir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), bum gwaith yn fwy tebygol o farw o COPD.^{5,6}
- Dros yr 20 mlynedd diwethaf, gwelwyd gwelliant o 4% yn y gyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi ar gyfer clefydau anadlol, ond gwelwyd gwelliant o 56% yn y gyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi ar gyfer clefydau cardiofasgwlaidd.⁵

Ym mis Mehefin 2022, argymhellodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU y dylid cyflwyno rhaglen sgrinio cancer yr ysgyfaint wedi'i thargedu.⁷ Dair blynedd yn ddiweddarach, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei Chynllun Peilot Gweithredol Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint, a ymchwiliodd i sut y gallai Cymru roi argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar waith.⁸ Defnyddiodd y Cynllun Peilot Gweithredol sganau tomograffeg gyfrifiadurol dos isel (LDCT) i ganfod cancer yr ysgyfaint. Mae sganau LDCT yn darparu delweddau manwl o'r ysgyfaint, a all ddatgelu annormaleddau fel emffysema neu achosion o dewychu'r llwybr anadlu, sydd ill dau yn arwydd o COPD.⁹ Y term cyffredin a ddefnyddir i gyfeirio at hyn yw canfyddiadau achlysurol.

Datgelodd y cynllun peilot hwn ganfyddiadau achlysurol arwyddocaol yn ymwneud ag emffysema, un o'r cyflyrau sy'n rhan o COPD.

Ymhlith y cyfranogwyr:

- roedd gan 61% emffysema ysgafn, cymedrol neu ddifrifol.⁸
- nid oedd bron i hanner y rhai ag emffysema cymedrol neu ddifrifol yn ymwybodol o'u cyflwr.⁸

O ystyried y sefyllfa bresennol yng Nghymru mewn perthynas â chlefydau anadlol, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu dull cynhwysfawr o reoli COPD. Mae hyn yn cynnwys penderfynu a ddylid archwilio neu anwybyddu canfyddiadau achlysurol COPD wrth ddatblygu rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer cancer yr ysgyfaint.

Drwy ddefnyddio effeithlonrwydd unrhyw raglen sgrinio cancer yr ysgyfaint a gyflwynir yn y dyfodol a all ganfod achosion posibl o COPD, gallem wella'r canlyniadau i gleifion yn sylweddol. Gallai'r dull hwn ddarparu cymorth hanfodol i gyfran o'r 54,000 o unigolion yng Nghymru yr amcangyfrifir eu bod yn byw gyda COPD ond heb gael diagnosis ohono, gan roi mynediad iddynt at driniaeth briodol.¹⁰

Prif nod y cynnig polisi hwn yw gwella diagnosis o COPD a'r ffordd y caiff y cyflwr ei reoli drwy ddefnyddio'r canfyddiadau achlysurol sy'n deillio o sgrinio am ganser yr ysgyfaint. Mae'r cynnig hwn yn pwysleisio'r cyfle unigryw sydd gan Gymru i drawsnewid y diagnosis a'r gofali i unigolion â COPD.

Diben a Chwmpas:

Diben: Integreiddio llwybr canfyddiadau achlysurol ar gyfer COPD i raglen sgrinio genedlaethol ar gyfer cancer yr ysgyfaint er mwyn trawsnewid y ffordd y gwneir diagnosis o'r cyflwr a'r driniaeth ar ei gyfer yng Nghymru. Gallai'r dull hwn wella canlyniadau i gleifion a lleihau'r baich ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).

Cwmpas: Bydd y polisi hwn yn targedu pobl 60-74 oed sy'n ysmygwyr neu'n gyn-ysmygwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio am ganser yr ysgyfaint, ac y nodwyd, drwy sganau tomograffeg gyfrifiadurol dos isel LDCT, bod ganddynt emffysema cymedrol neu ddifrifol.

Canlyniadau sy'n Gwaethygu ar gyfer COPD yng Nghymru:

Mae COPD yn broblem iechyd fawr yng Nghymru, gan ei bod un o ddwy wlad yn y DU sydd â'r gyfradd uchaf o COPD, gyda thua 83,000 o unigolion wedi cael diagnosis o'r clefyd.¹¹

Fodd bynnag, amcangyfrifir bod tua 54,000 yn rhagor o bobl yn byw gyda COPD ond heb gael diagnosis ohono.¹⁰


Mae COPD yn cwmpasu cyflyrau fel emffysema a bronchitis cronig.² Mae tua 85% o'r achosion o COPD yn deillio'n uniongyrchol o ysmegu, a bydd tua 1 o bob 5 ysmygwr yn datblygu COPD.¹² Ar hyn o bryd, Cymru sydd â'r gyfradd ysmegu uchaf ond un yn y DU.¹³

Mae'n bwysig bod cleifion yn gallu cael mynediad at brofion sbirometreg ar ôl cael broncoledydd, sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd, sef prawf gweithrediad yr ysgyfaint cyn ac ar ôl defnyddio meddyginiaeth.¹¹

Fel yr amlygir yn adroddiad archwiliad clinigol o ofal sylfaenol 2021-23 ar gyfer Cymru, dim ond 21.4% o gleifion COPD a oedd wedi cael prawf sbirometreg ar ôl cael broncoledydd adeg ysgrifennu adroddiad yr archwiliad.¹¹

Mae COPD yn achosi 1,800 o farwolaethau bob blwyddyn, a gwelwyd gwelliant o 4% yn y gyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi ar gyfer clefydau anadlol yn yr 20 mlynedd diwethaf.⁵ Mae hyn yn wrthgyferbyniad llwyr â chlefyd cardiofasgwlaidd, ble y gwelwyd gwelliant o 56% yn y gyfradd marwolaethau y gellir eu hosgoi.⁵

Mae marwolaethau oherwydd COPD yn cyfrannu at y ffaith bod clefydau anadlol yn parhau i fod ymhlith y tri phrif achos marwolaeth ac yn broblem sylweddol o ran tegwch iechyd.⁴ Mae pobl sy'n byw yn y rhannau o Gymru sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd, fel y'u nodwyd gan MALIC, bum gwaith yn fwy tebygol o farw o COPD.^{5,6}



Asthma + Lung UK. Oedi diagnosis a gofal anghyfartal.¹⁰
Coleg Brenhinol Meddygon. Archwiliad clinigol gofal sylfaenol Cymru 2021 - 23.¹¹

Bob blwyddyn, ceir 12,000 o dderbyniadau brys i'r ysbyty oherwydd COPD.⁵ Yn ôl ymchwil gan Asthma + Lung UK, mae trin COPD yn costio £211 miliwn y flwyddyn i'r GIG, a dyma'r achos mwyaf ond un sydd i'w gyfrif am dderbyniadau brys i'r ysbyty yng Nghymru.⁵

Fodd bynnag, nid yw'r straen y mae clefydau anadlol yn ei roi ar y GIG yn rhywbeth newydd, gan ein bod yn gwybod y bu cynnydd o 65.5% yn y derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â COPD yng Nghymru a Lloegr rhwng 1999 a 2020.¹⁴

Er gwaethaf ymdrechion glew clinigwyr, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn y cynnig hwn yn dangos bod COPD yn rhoi cryn bwysau ar adnoddau'r GIG. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i wella canlyniadau i gleifion â COPD, mae potensial mawr o hyd i wneud rhagor o welliannau.


Cyfle Unigryw i Wrthdroi'r Canlyniadau sy'n Gwaethygu ar gyfer COPD yng Nghymru:

Yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i gyflwyno gwasanaeth sgrinio cancer yr ysgyfaint wedi'i dargedu,⁷ ym mis Medi 2024, cwblhaodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Peilot Gweithredol Gwiriad lechyd yr Ysgyfaint, i brofi sut y gallai Cymru fabwysiadu argymhelliad UK NSC.⁸

Defnyddiodd y Cynllun Peilot Gweithredol sganau tomograffeg gyfrifiadurol dos isel (LDCT) i ganfod cancer yr ysgyfaint. Mae sganau LDCT yn darparu delweddau manwl o'r ysgyfaint, a all ddatgelu annormaleddau fel emffysema neu achosion o dewychu'r llwybr anadlu, sydd ill dau yn arwydd o COPD.⁹ Y term cyffredin a ddefnyddir i gyfeirio at hyn yw canfyddiadau achlysurol.

Dangosodd adroddiad gwerthuso Cynllun Peilot Gweithredol Gwiriad lechyd yr Ysgyfaint fod gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr arwyddion o emffysema.

Emffysema a Ganfuwyd Ymysg Cyfranogwyr Cynllun Peilot Gweithredol Gwiriad lechyd yr Ysgyfaint



GIG Cymru. Cynllun Peilot Gweithredol Gwiriad lechyd yr Ysgyfaint Cymru: Adroddiad Gwerthuso 1.⁸

Ymhlith y 546 o'r cyfranogwyr yn y Cynllun Peilot Gweithredol, nodwyd bod gan 332 emffysema.⁸ Cafodd difrifoldeb yr emffysema ymysg y cyfranogwyr hyn ei gategoreiddio fel a ganlyn: roedd 260 o'r achosion yn ysgafn, 56 o'r achosion yn gymedrol, ac 16 o'r achosion yn ddifrifol.⁸

Mae'r adroddiad gwerthuso hefyd yn rhoi rhywfaint o fanylion ynghylch y rhai â diagnosis hysbys o COPD y nodwyd bod ganddynt emffysema ysgafn neu gymedrol yn ystod y Cynllun Peilot Gweithredol.⁸ Yn anffodus, ni ddarparwyd y wybodaeth hon ar gyfer y rhai y nodwyd bod ganddynt COPD ysgafn.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad gwerthuso yn amlygu'r ffaith bod gan 52.7% o'r rhai ag emffysema cymedrol neu ddifrifol ddiagnosis hysbys o COPD cyn y Cynllun Peilot Gweithredol.⁸ **Fodd bynnag, nid oedd gan 47.3% o'r cyfranogwyr ddiagnosis hysbys o COPD cyn y Cynllun Peilot Gweithredol.⁸**

Er gwaethaf y ffaith bod bron i hanner y cyfranogwyr y nodwyd bod ganddynt emffysema cymedrol neu ddifrifol heb gael diagnosis pendant o COPD. Nid awgrymodd y Cynllun Peilot Gweithredol y dylid cynnal ymchwiliadau neu asesiadau pellach o ran y cleifion na gofal sylfaenol yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn.⁸

Gallai gweithredu rhaglen sgrinio ar gyfer cancer yr ysgyfaint sy'n archwilio'r achosion posibl hyn o COPD fod o fudd mawr i unigolion sy'n profi symptomau a lleihau'r baich ar y GIG. Byddai'r dull hwn yn caniatáu i gyfran o'r 54,000 o unigolion yng Nghymru yr amcangyfrifir eu bod yn byw gyda COPD ond sydd heb gael diagnosis ohono gael mynediad at driniaeth briodol.¹⁰

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad llawn o'r cyfranogwyr hyn.

Difrifoldeb Emffysema	Cyfranogwyr wedi'u nodi	Diagnosis Hysbys o COPD (Nifer)	Diagnosis Hysbys o COPD (Canran)	Dim Diagnosis Hysbys o COPD (Nifer)	Dim Diagnosis Hysbys o COPD (Canran)
Difrifol	16	10	62.5%	6	37.5%
Cymedrol	56	24	42.9%	32	57.1%
Cyfanswm	72	34	52.7%	38	47.3%

GIG Cymru. Cynllun Peilot Gweithredol Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint Cymru: Adroddiad Gwerthuso 1.⁸

Gwella Diagnosis o COPD a Gofal o'r Clefyd drwy Fanteisio ar Raglenni Sgrinio Canser yr Ysgyfaint:

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a'r Fenter Fyd-eang ar gyfer Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (Global Initiative for Chronic Obstructive Lung Disease neu GOLD) ill dau yn argymhell defnyddio proses sganio Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT) wedi'i thargedu i ganfod achosion o COPD.^{15,16} Noda canllawiau NICE y dylai clinigwyr ystyried adolygiad anadlol gofal sylfaenol a sbirometreg ar gyfer pobl ag emffysema neu arwyddion o glefyd cronig ar y llwybrau anadlu ar belydr-X o'r frest neu sgan CT.¹⁵

Yn ei hadroddiad ar gyfer 2025, mae GOLD yn nodi:
 "There is currently a missed opportunity to perform spirometry in people at high risk of having COPD during lung cancer screening programmes or when incidental lung abnormalities are found on imaging that may indicate the presence of COPD. The use of spirometry in targeted patients undergoing lung cancer screening or when incidental imaging abnormalities are found consistent with parenchymal or airway manifestations of airways disorders is recommended by GOLD."¹⁶

Cydweithio gan defnyddio raglen sgrinio Canser yr Ysgyfaint: Mae gan Chiesi hanes cryf o weithio gyda'r GIG i ddefnyddio rhaglenni sgrinio canser yr ysgyfaint i wella diagnosis o COPD.

FRONTIER (Finding the hidden millions: restoration of early COPD diagnosis for Hull Lung Health Check participants to optimise treatment and improve outcomes): Ers mis Medi 2023, mae Chiesi wedi cydweithio ag Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Addysgu Prifysgol Hull i gyflwyno'r prosiect FRONTIER. Mae'r prosiect dwy flynedd hwn yn adeiladu ar yr yn yr arferwyd ei alw'n Rhaglen Gwirio Iechyd yr Ysgyfaint wedi'i Thargedu (Targeted Lung Health Check Programme neu TLHC) yn Lloegr. Nod FRONTIER yw hwyluso diagnosis o COPD a chyflwyno ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn amserol, gan gynnwys ymyriadau ffarmacolegol ac anffarmacolegol, er mwyn gwella canlyniadau i gleifion.^{17 oed}

Methodoleg: Caiff y cyfranogwyr yng nghynllun Gwiriad Iechyd yr Ysgyfaint Hull nad ydynt wedi cael diagnosis o ganser yr ysgyfaint ond y nodwyd bod ganddynt risg uchel o gael COPD yn seiliedig ar symptomau neu ganfyddiadau o'r broses

ddelweddu eu gwahodd i glinig diagnostig un stop mewn ysbyty. Mae'r clinig hwn yn cynnwys asesiad o symptomau a dull gwrthrychol o fesur cyfyngiad ar lif aer ar gyfer pob claf. Mae cleifion sy'n cael diagnosis o COPD yn y clinig yn dechrau cael triniaeth ar unwaith ac yn cael cynllun gofal

cynhwysfawr, sy'n cynnwys addysg am y clefyd a dulliau hunanreoli.¹⁷ Gwneir hyn yn uniongyrchol yn y clinig, yn hytrach na chyfeirio cleifion yn ôl i ofal sylfaenol.

Canlyniadau: Mae'r canfyddiadau diweddaraf (Ionawr 2025) yn dangos bod 46.8% (383/819) o'r bobl sydd wedi mynychu'r clinig bellach wedi cael diagnosis o COPD (ac roedd gan 37% o'r rheini, sef 142/383, COPD cymedrol neu ddifrifol) ac mae ganddynt gynllun triniaeth ar waith.¹⁸

Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol: Mae Chiesi bellach yn cydweithio â'r GIG yng Nghilgwri ar brosiect o'r enw COMET (COPD Targeted management, Early Intervention and Treatment), sy'n defnyddio canfyddiadau FRONTIER ac yn rhoi'r model ar waith gan ddefnyddio prosesau Diagnostig Cymunedol presennol y rhanbarth yn hytrach na chlinig pwrpasol mewn ysbyty.¹⁹

Byddwn yn parhau i gyhoeddi canfyddiadau a gwybodaeth yn deillio o'r prosiectau cydweithredol hyn wrth iddynt fynd yn eu blaen, gan fod Chiesi yn credu bod cyfle gwirioneddol i newid y canlyniadau'n sylweddol i bobl sy'n byw gyda COPD ond sydd heb gael diagnosis ohono.

Datblygu Llwybr tuag at Ganlyniadau Gwell i Bobl sy'n Byw gyda COPD:

Gan gydnabod bod y canlyniadau i unigolion sy'n byw gyda COPD yn gwaethygu, rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle a ddaw yn sgil unrhyw raglen sgrinio cancer yr ysgyfaint wedi'i thargedu a gyflwynir yn y dyfodol.

Gall rhaglenni sgrinio o'r fath wella diagnosis o COPD a'r ffordd y caiff y cyflwr ei reoli, gan fod gan y ddau gyflwr ffactorau risg tebyg, fel oedran ac ysmegu, a gellir eu canfod drwy sganau LDCT.⁹

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddydil anwybyddu neu archwilio canfyddiadau achlysurol COPD wrth ddatblygu rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer cancer yr ysgyfaint.

Mynd i'r Afael â'r Problemau: Rhaid i lechyd Cyhoeddus Cymru asesu'r heriau a amlygwyd yn y cynnig hwn ynghylch yr anawsterau y mae unigolion â COPD yn eu hwynebu o ran cael diagnosis o'r cyflwr a'i reoli.

Er bod llawer o wasanaethau'r GIG dan bwysau, mae'n hanfodol ystyried yr heriau ochr yn ochr â'r cyfleoedd y mae sgrinio am ganser yr ysgyfaint yn eu cynnig.

Mae'r cynnig polisi hwn wedi dangos y gallai integreiddio llwybr canfyddiadau achlysurol sydd wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer COPD i unrhyw raglen sgrinio genedlaethol am ganser yr ysgyfaint drawsnewid y ffordd y gwneir diagnosis o'r cyflwr a'r driniaeth ar ei gyfer yng Nghymru.

Ymyriadau sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth: Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel rhaglenni rhoi'r gorau i ysmegu, triniaethau ffarmacolegol, ac adsefydlu'r ysgyfaint, er mwyn gwella canlyniadau i gleifion.

Addysg i Gleifion: Dylai unrhyw lwybr arfaethedig gynnwys addysg i gleifion er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog diagnosis cynnar a chadw at gynlluniau triniaeth.

Casgliad: Mae gweithredu ar unwaith yn hanfodol er mwyn gwella canlyniadau anadlol yng Nghymru. Mae unrhyw raglen sgrinio genedlaethol ar gyfer cancer yr ysgyfaint yn cynnig cyfle strategol i drawsnewid diagnosis o COPD a'r gofal ar gyfer y clefyd, a allai fod o fudd i'r 54,000 o unigolion yng Nghymru yr amcangyfrifir eu bod yn byw gyda COPD ond sydd heb gael diagnosis ohono, gan leddfu'r pwysau ar y GIG ar yr un pryd.

Cyfeiriadau:

1. Asthma + Lung UK. Lung conditions kill more people in the UK than anywhere in Western Europe. Ar gael yn: <https://www.asthmaandlung.org.uk/media/press-releases/lung-conditions-kill-more-people-uk-anywhere-western-europe>
2. COPD.net. Understanding Emphysema vs. Chronic Bronchitis. Ar gael yn: <https://copd.net/clinical/emphysema-chronic-bronchitis-differences>
3. Asthma + Lung UK. Cymru. Ar gael yn: <https://www.asthmaandlung.org.uk/wales>
4. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Deaths registered in England and Wales: 2023. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsregistrationsummarytables/2023>
5. Asthma + Lung UK. Arbed Eich Anadl: Sut mae iechyd yr ysgyfaint gwell o fudd i bawb yng Nghymru. Ar gael yn: <https://www.asthmaandlung.org.uk/saving-your-breath-how-better-lung-health-benefits-us-all-us-wales-welsh>
6. Asthma + Lung UK. Bywyd ac Anadl: Pam mae Angen Rhoi'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau Anadlol ar Waith ar Frys. Ar gael yn: <https://www.asthmaandlung.org.uk/why-quality-statement-respiratory-disease-needs-be-implemented-urgently-welsh>
7. Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Lung cancer. Ar gael yn: <https://view-health-screening-recommendations.service.gov.uk/lung-cancer/>
8. GIG Cymru. Cynllun Peilot Gweithredol Gwriad Iechyd yr Ysgyfaint Cymru: Adroddiad Gwerthuso 1. Ar gael yn: <https://bipctm.gig.cymru/gwasanaethau/peilot-gwriad-iechyd-yr-ysgyfaint/adroddiad-gwerthuso/cynllun-peilot-gweithredol-gwriad-iechyd-yr-ysgyfaint-cymru-adroddiad-gwerthuso-1-pdf/>
9. Chest Journal. Quantitative Emphysema on Low-Dose CT Imaging of the Chest and Risk of Lung Cancer and Airflow Obstruction. Ar gael yn: [https://journal.chestnet.org/article/S0012-3692\(20\)35356-3/abstract](https://journal.chestnet.org/article/S0012-3692(20)35356-3/abstract)
10. Asthma + Lung UK. Delayed Diagnosis and Unequal Care. Ar gael yn: <https://www.asthmaandlung.org.uk/sites/default/files/2023-03/delayed-diagnosis-unequal-care.pdf>
11. Coleg Brenhinol y Meddygon. Wales primary care clinical audit report 2021–23. Ar gael yn: https://www.rcp.ac.uk/media/r33nczpf/nrap_wales-primary-care-clinical-audit-report.pdf
12. Ash Wales. COPD ac ysmegu – canllaw arbenigwr. Ar gael yn: <https://ash.wales/copd-and-smoking-an-experts-guide/>
13. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Arferion ysmegu oedolion yn y DU: 2021. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/bulletins/adultsmokinghabitsingreatbritain/2021>
14. BMC Pulmonary Medicine. Trends in hospital admissions and prescribing due to chronic obstructive pulmonary disease and asthma in England and Wales between 1999 and 2020: an ecological study. Ar gael yn: <https://bmcpulmed.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12890-023-02342-6>
15. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Chronic obstructive pulmonary disease in over 16s: diagnosis and management. Ar gael yn: <https://www.nice.org.uk/guidance/ng115/chapter/Recommendations>
16. Menter Fyd-eang ar gyfer Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (GOLD). Global Strategy for the Diagnosis, Management, and Prevention of Chronic Obstructive Pulmonary Disease (2025 Report). Ar gael yn: https://goldcopd.org/wp-content/uploads/2024/11/GOLD-2025-Report-v1.0-15Nov2024_WMV.pdf
17. Chiesi Ltd. Finding the hidden millions: restoration of early COPD diagnosis for Hull Lung Health Check participants to optimise treatment and improve outcomes. Ar gael yn: <https://www.chiesi.uk.com/frontier-hull>
18. Chiesi Ltd. Data ar ffeil
19. Chiesi Ltd. COMET (COPD Targeted Management, Early Intervention and Treatment). Ar gael yn: <https://www.chiesi.uk.com/comet>

